# Cofnodion drafft cyfarfod Cyngor llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher, 19 Chwefror 2025, am 6.00pm fel cyfarfod hybrid.

**Presennol:** Cynghorwyr yn y Siambr: Jan Tomlinson, Alyn Ashworth, Philip Stevens, Gaynor Morgan-Rees, Sylvia Jennings, Sioned Garrod, Matthew Jones, Pauline Edwards a Robert Davies, Jenny Barlow (Clerc y Dref), Jo Davies (Cynorthwy-ydd)

**Zoom:** Y Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Lara Pritchard ac Andrew Hine

**Eraill a oedd yn bresennol:** Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Peter Jones

***Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jan Tomlinson, bawb i gyfarfod llawn y Cyngor ym mis Chwefror. Croesawodd a chyflwynodd y Cynghorydd Tomlison Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Peter Jones.***

**139 Cyflwyniad ynghylch Heddlu Gogledd Cymru – Peter Jones, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu – Adroddiad Troseddau yn Ninbych**

Darllenodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Peter Jones, yr adroddiad ar droseddau lleol yn Ninbych o 03.01.2025 tan ddyddiad y cyfarfod. Cyflwynodd ddisgrifiad o'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dref ar hyn o bryd hefyd. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad bu cyfle i ofyn cwestiynau a thrafodwyd camddefnyddio sylweddau ac anhrefn yn deillio o hynny.

Diolchodd y Cyngor Tref i'r Swyddog am ei adroddiad diddorol a llawn gwybodaeth ac mae'r Cyngor Tref yn edrych ymlaen at groesawu Heddlu Gogledd Cymru i'r Siambr yn y dyfodol i gael diweddariad ar droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ninbych gyda'r nod o weithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru ar y troseddau sy'n effeithio fwyaf ar y dref a sut i fynd i'r afael â hyn yn effeithiol.

Diolchodd y Cyngor Tref i Heddlu Gogledd Cymru hefyd am y cynnydd diweddar yn nifer yr heddlu ar batrol yn y dref.

Ymunodd y Cynghorydd Andrew Hine â'r cyfarfod trwy Zoom am 18:18.
Gadawodd Peter Jones, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, y Siambr am 18:30.

**140 Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Dim

**141 Datgan buddiant personol / buddiant sy'n rhagfarnu**
Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu yn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn:

| Rhif yr eitem | Cynghorydd | Buddiant personol / buddiant sy'n rhagfarnu |
|---|---|---|
| 9.5.2 | Gaynor Morgan-Rees | Personol |

Ymunodd y Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle a Roy Tickle â'r cyfarfod trwy Zoom am 18:28.

**142** **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd nos Fercher, 22 Ionawr 2025 (Rhan 1) –** Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion.

**143** **Cadarnhau cofnodion cyfarfod arbennig y Cyngor Tref a gynhaliwyd nos Fercher, 29 Ionawr 2025.-** Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion.

**144** **Cadarnhau cofnodion cyfarfod arbennig y Cyngor Tref a gynhaliwyd nos Lun, 10 Chwefror 2025. –** Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion.

**145** ***Mater brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972:*** **Nodwyd**

Mae Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu ystyried busnes brys yng nghyfarfodydd y cyngor neu ei bwyllgorau. Gall hyn ddigwydd pan fo cadeirydd y cyfarfod o'r farn fod yr eitem yn un frys oherwydd amgylchiadau arbennig. Rhaid cofnodi'r rheswm am y brys yng nghofnodion y cyfarfod.

**146** **Materion yn codi**

**146.1** Offer campfa awyr agored i oedolion – Trafododd Clerc y Dref gyfarfod y bu ynddo gyda'r Cynghorydd Sir Pauline Edwards. Bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ddydd Llun, 24 Chwefror, ynghylch Parc Cae Hywel. Bydd hyn yn cynnwys offer campfa awyr agored i oedolion a bydd yr ymgynghoriad yn trafod y cynlluniau yn eu cyfanrwydd – **Nodwyd**

**146.2** Diweddariad ynghylch yr hebryngwr croesfan ysgol ar Ffordd y Rhyl, Dinbych – Cadarnhaodd Clerc y Dref fod Cyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi hysbyseb am Hebryngwr Croesfan Ysgol yn Ninbych ar 17 Chwefror 2025, yn dilyn y trafodaethau ynghylch hyn yng nghyfarfod llawn y Cyngor ym mis Ionawr – **Nodwyd**

**147** **Gohebiaeth a dderbyniwyd:**

**147.1** Y Rhaglen Adolygiad Etholiadol 2025 – **Nodwyd**
**147.2** Neges e-bost gan Glwb Rotari Dinbych – Prosiect Cerddoriaeth MIND Dyffryn Clwyd 2025 – **Nodwyd**
**147.3** Ymgynghoriad cyhoeddus – Toiledau Cyhoeddus – er bod yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch toiledau cyhoeddus wedi dod i ben yn awr, mae'n parhau ar agor i'r Cyngor Tref tan 27 Chwefror 2025. Cytunodd y Cyngor Tref y dylai'r Clerc ateb cwestiynau'r holiadur ar ei ran – **Cytunwyd ar a nodwyd hyn.**
**147.4** Neges e-bost gan Ysgol Frongoch ynghylch prosiect – **Nodwyd**
**147.5** Neges e-bost gan Chris Madoc Jones ynghylch Ysbyty Gogledd Cymru – Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cynghorydd Sir Pauline Edwards am hyn, i'w drafod ymhellach dan eitem agenda 13. Cytunodd y Cyngor Tref y gallai Clerc y Dref anfon ateb at Chris Madoc Jones i rannu'r wybodaeth hon - **Cytunwyd ar a nodwyd hyn**
**147.6** Neges e-bost gan Un Llais Cymru ynghylch Arolwg ynghylch y Pwyllgor Ardal – cytunodd y Cyngor Tref, gan mai'r Cynghorydd Alyn Ashworth yw'r cynrychiolydd ar y Pwyllgor Ardal, y dylai ateb cwestiynau'r holiadur ar ran y Cyngor Tref – **Cytunwyd ar a nodwyd hyn**

Gadawodd y Cynghorydd Andrew Hine y cyfarfod drwy Zoom am 18:53.

**147.7** Neges e-bost gan J Cusworth ynghylch grant i brosiect Cae Dai – llythyr o gefnogaeth – Cytunodd y Cyngor Tref y byddai'r Clerc yn anfon llythyr o gefnogaeth ar ran y Cyngor Tref – **Cytunwyd ar a nodwyd hyn**
**147.8** Neges e-bost gan Un Llais Cymru ynghylch digwyddiad ar y cyd gyda Chymorth Cynllunio Cymru – **Nodwyd**
**147.9** Adroddiad archwiliad Gardd Dr Evan Pierce yn dilyn gwyntoedd cryfion – yn cynnwys dyfynbris am y gwaith sy'n ofynnol – **Nodwyd**
**147.10** Neges e-bost gan Adran Cynllunio Strategol Cyngor Sir Ddinbych – Arolwg Rhanddeiliaid 2024/25 – Cytunodd y Cyngor Tref y byddai'r Clerc yn ateb cwestiynau'r holiadur hwn ar ran y Cyngor Tref. Fodd bynnag, os oedd gan unrhyw Gynghorwyr gwestiynau cyn hynny, dylent eu cyfeirio at y Clerc drwy e-bost – **Cytunwyd ar a nodwyd hyn**

Gwnaeth y Cynghorydd Andrew Hine ailymuno â'r cyfarfod drwy Zoom am 18:56.

**148 Cyllid -**

**148.1 Adroddiadau cysoniadau'r cyfrifon banc – Mis Ionawr 2025 – Nodwyd**

**148.2 Rhestr y taliadau wnaed – mis Ionawr 2025 – Nodwyd**

| Rhif yr eitem | Dyddiad | Rhif y siec | Taliad i | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| **148.2.1** | 02.01.2025 | 008458, 008459, 008460 | Jones & Graham | Cyflogau | £8,018.11 |
| **148.2.2** | 27.01.2025 | 008461 | M. Morton | Blue Duo Events (masgotiaid Nadolig) | £200.00 |
| **148.2.3** | 27.01.2025 | 008462 | Catalyst | Mis Ionawr 2025 - Ffi band eang | £52.80 |
| **148.2.4** | 27.01.2025 | 008463 | Catalyst | Mis Tachwedd 2024 - Ffi gwasanaethau ffôn | £58.78 |
| **148.2.5** | 27.01.2025 | 008464 | Catalyst | Mis Rhagfyr 2024 - Creu copi wrth gefn | £4.13 |
| **148.2.6** | 27.01.2025 | 008465 | Catalyst | 2024 Telephony | £58.78 |
| **148.2.7** | 27.01.2025 | 008466 | J. Barlow | Mis Rhagfyr – ad-daliad Zoom | £15.59 |
| **148.2.8** | 27.01.2025 | 008467 | J. Barlow | Mis Ionawr – ad-daliad Zoom | £15.59 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **148.2.9** | 27.01.2025 | 008468 | P. Liversidge | Cynnal a chadw Gardd Evan Pierce | £15.00 |
| **148.2.10** | 27.01.2025 | 008469 | David Hughes | Coeden Nadolig Sgwâr y Goron | £200.00 |
| | | | | **Cyfanswm** | **£8,638.78** |

**148.3 Taliadau angen eu hawdurdodi: cytunwyd ar a nodwyd y taliadau isod gan y Cynghorwyr Tref:**

| Rhif yr eitem | Dyddiad | Rhif y siec | Taliad i | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| **148.3.1** | 20.02.2025 | 008496 | Bodfari Environmental | Cynnal a chadw Gardd Dr Evan Pierce, mis Hydref – mis Rhagfyr 2024 | £1018.20 |
| **148.3.2** | 20.02.2025 | 008497 | Hampshire Flags | Baneri Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi | £513.00 |
| **148.3.3** | 20.02.2025 | 008498 | Safety Focus Ltd | Taliad terfynol am nwyddau Iechyd a Diogelwch | £600.00 |
| | | | | **Cyfanswm** | £2131.20 |

**148.4 Rhestr y derbyniadau ym mis Ionawr 2025 – Nodwyd**

| Dyddiad | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| 31.01.2024 | Llog ar y credyd | £452.78 |
| | Cyfanswm | £452.78 |

**148.5 Cymorth grant a awdurdod gan y Cynghorwyr Tref: Cytunwyd ar a nodwyd yr isod**

| Rhif yr eitem | Cod | Rhif y siec | Siec yn daladwy i | Swm |
|---|---|---|---|---|
| **148.5.1** | Adran 137 | 008499 | Theatr Bara Caws | £100.00 |
| **148.5.2** | Adran 145 | 008501 | Theatr Twm o'r Nant | £2161.51 |
| **148.5.3** | Adran 145 | 008502 | Menter Iaith Dinbych | £1740.00 |
| **148.5.4** | Adran 137 | 008503 | Côr Meibion Dinbych | £1047.00 |

**148.6 Cadarnhau'r taliadau a dderbyniwyd –**
Clwb Rotari Dinbych ac Ambiwlans Awyr Cymru - **Nodwyd**

**148.7 Sut y defnyddiwyd taliadau grant (Adolygiad Chwe Mis) – dim**

**148.8 Dyfynbrisiau**

**148.8.1** Uproar – Tân gwyllt – **Cytunwyd**

**149 Cynllunio:**

**149.1** 01/2024/1622/PF
Bwyty Melin Brwcws, Hen Ffordd Rhuthun, Dinbych
Adnewyddu ac estyniad i'r dafarn sy'n bodoli eisoes.
- **Dim gwrthwynebiad**

………………………………………………………………………………………………………...

**149.2** 10.2 01/2025/0008/HE
Clwb Pel-droed Dinbych, Y Maes Pel-droed, Stryd y Parc, Dinbych
Cynnig i waredu'r gwrych i hwyluso creu estyniad i'r cae pel-droed.
- **Dim gwrthwynebiad**

………………………………………………………………………………………………………...

**149.3** 10.3 01/2024/1368/TP
31 Lôn Pendref, Dinbych.
Tynnu ymaith un goeden onnen yn Ardal Gadwraeth Dinbych.
- **Dim gwrthwynebiad**

………………………………………………………………………………………………………...

**149.4** 10.4 01/2024/1482/PF
Brady Global Ltd, Uned 34 Bryn Gwyrdd, Ystad Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych.
Newid defnydd tir drwy osod cynwysyddion i'w llogi ar gyfer storio eitemau; cynhwysydd ar gyfer gwerthu bwyd tecawê a gwaith cysylltiedig.
- **Dim gwrthwynebiad**

………………………………………………………………………………………………………...

**149.5** 0.5 01/2025/0018/HH
29 Lôn y Post, Dinbych
Gosod ffenestri newydd yn nhu ôl yr adeilad.
- **Dim gwrthwynebiad**

**150 Diweddariad gan y Maer –**

**150.1** Trafododd y Cynghorydd Jan Tomlinson Ddiwrnod Agored siop Hosbis Sant Cynderyn ar ei newydd wedd, y bu ynddo gyda'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd Pauline Edwards. Cyfeiriodd y ddwy at yr uwchraddio llwyddiannus a bod staff Hosbis Sant Cynderyn wedi rhoi gwahoddiad i'r Maer a'r Dirprwy Faer ymweld â'r hosbis hefyd.

**150.2** Cyfeiriodd y Cynghorydd Tomlinson at y digwyddiad croesawu Cynghrair Treftadaeth Stanley y Congo ac Uganda ar 13 Chwefror 2025. Diolch arbennig i gwmni Henllan Bread a Llwyn Banc am gyfrannu cynnyrch lleol i'w gynnig fel lluniaeth i'r ymwelwyr.

**150.3** Bu'r Cynghorydd Pauline Edwards mewn Seremoni Ddinasyddiaeth ar ran y Cynghorydd Tomlinson yn Neuadd y Dref, Rhuthun.

**151 Cyfarfodydd eraill y bu Cynghorwyr Tref yn bresennol ynddynt**

**151.1** Bu'r Cynghorydd Matthew Jones mewn cyfarfod Pwyllgor y Carnifal gan y bu apêl daer am fwy o wirfoddolwyr. Yn anffodus roedd y presenoldeb yn y cyfarfod yn wael ac felly, er bod Pwyllgor y Carnifal yn gobeithio bwrw ymlaen gyda'r digwyddiad eleni, bydd ar raddfa lai heb ragor o gefnogaeth gan y cyhoedd.

**151.2** Bu'r Cynghorydd Gaynor Morgan-Rees yng nghyfarfod y Pwyllgor Drysau Agored yn y Guildhall. Cafwyd trafodaeth fanwl ynghylch taflenni a'u dosbarthiad, ymwneud y

llyfrgell â’r digwyddiad a thywysyddion yn ystod cyfnod y penwythnos Drysau Agored. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol iawn.

**151.3** Bu’r Cynghorydd Sylvia Jennings mewn cyflwyniad ynghylch Darganfod Dinbych yn y Guildhall. Nododd y Cynghorydd Jennings fod nifer dda wedi dod i’r cyflwyniad, gyda llawer o ddiddordeb. Cyfarfod cadarnhaol a llwyddiannus.

**151.4** Nododd y Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle y bu mewn cyfarfod y Pwyllgor Gefeillio a bydd diweddariad ynghylch dyddiadau’r ymweliad yn cael eu rhyddhau’n ddiweddarach.

**152 Diweddariad gan y Cynghorydd Sir, y Cynghorydd Pauline Edwards –**

**152.1** Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd Edwards ynghylch y tai yn Llwyn Eirin, Dinbych, a’r dyfarniad llwyddiannus i gwmni Vectorex Construction Ltd i gyflawni gwaith y datblygiad tai.

**152.2** Cadarnhaodd y Cynghorydd Edwards fod cronfa ychwanegol o £10 miliwn wedi’i rhyddhau gan Lywodraeth Cymru i roi hwb i ddatblygu cynlluniau tai fforddiadwy newydd yng Nghymru. Mae Grŵp Cynefin wedi’i gynnwys yn hyn yng nghyswllt Fflatiau Pennant (11 cartref).

**152.3** Cadarnhaodd y Cyng Edwards fod pethau'n symud ymlaen gyda chytundeb Adran 106 rhwng awdurdod cynllunio lleol Sir Ddinbych a Jones Bros. Pwrpas cytundeb A106 yw lliniaru effaith y datblygiad ar y gymuned leol ac isadeiledd.

**153 Taliad cydnabyddiaeth i’r holl Gynghorwyr Tref (£156.00 + £52.00) –** Cadarnhaodd Clerc y Dref fod y taliadau cydnabyddiaeth hyn yn ddyledus i’r holl Gynghorwyr Tref ym mis Mawrth 2025, fodd bynnag, os yw unrhyw Gynghorwyr yn dymuno peidio â derbyn y taliadau hyn, rhaid iddynt nodi hynny’n ysgrifenedig.

**154 Polisïau** – Cytunodd y Cyngor Tref a nodwyd y dylai unrhyw ddiwygiadau a wnaed fynd i’r grŵp craffu i’w cymeradwyo’n gyntaf. Cynghorodd y Clerc, dan yr amgylchiadau hyn, y byddai angen i’r grŵp craffu gyflwyno unrhyw ddiwygiadau eraill i’r Clerc cyn 11 Mawrth 2025, o gofio bod diwedd y flwyddyn ariannol ar 5 Ebrill ac y cynhelir cyfarfod llawn y Cyngor ym mis Mawrth ar 19 Mawrth. Byddai hyn yn rhoi wythnos o rybudd i’r Clerc i gynnwys unrhyw geisiadau am ddiwygiadau pellach.

**154.1** Rheoliadau Ariannol
**154.2** Asesiad Risgiau
**154.3** Cofrestr Asedau
**154.4** Rheolau Sefydlog
**154.5** Y ffurflen Cymorth Grant a’r Canllawiau Cymorth Grant
**154.6** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**155 Newid dyddiad arfaethedig – Digwyddiad goleuo’r goleuadau Nadolig – trosolwg gan Jo Davies**

Cyflwynodd y Cynorthwy-ydd Prosiectau a Digwyddiad drosolwg yn cynnig newid y dyddiad. Nodwyd problemau ynghylch presenoldeb trigolion, gwirfoddolwyr a masnachwyr, yr effaith ar fusnesau lleol a’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i fasnachwyr y farchnad a’r effaith ar gludiant cyhoeddus. Nodwyd y byddai cynnal y digwyddiad ar ddydd Sul

yn golygu llai o effaith ar fusnes lleol, meddygfeydd ac ati a byddai cynnydd arwyddocaol yn nifer y trigolion a gwirfoddolwyr ar gael i ddod i'r digwyddiad. Cytunwyd ar a nodwyd hyn gan y Cyngor Tref.

**156 Dyddiadau parcio am ddim yn 2025: Cytunwyd ar a nodwyd y dyddiadau**

**156.1 20 Medi – Drysau Agored**
**156.2 4 Hydref – Gŵyl Eirin Dinbych**
**156.3 30 Tachwedd (i'w gadarnhau) – Digwyddiad goleuo'r goleuadau Nadolig**

**157 Adolygu Cyflogau'r Staff – Penderfynwyd**

***Oherwydd natur gyfrinachol busnes yr eitem agenda hon, bwriadir cyflwyno cynnig dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 (3), y dylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod yr eitem agenda hon***

Cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod am **20.21.**

Llofnod ……………………………………

Dyddiad …………………………………